LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

ENW: Luke Jordan

LLEOLIAD: Gaerwen, Ynys Môn

Y SWYDD: Pelly – Cyfrifol am Werthu

PAM ES TI AT LLWYDDO'N LLEOL?

Roeddwn i'n awyddus i fod yn agosach at fy nheulu yng Nghymru, ond *rili* eisiau gweithio yn y maes pêl droed. Yn y gorffennol, 'on i'n meddwl byddai'n amhosib gweithio yn y maes a byw adra. Felly, pan welais i gyfle gyda elfen gyrfaol prosiect Llwyddo'n Lleol, roedd o'n *no brainer*. Efo'r gefnogaeth, dwi rŵan yn gweithio gyda chwmni chwaraeon, Pelly, fel arweinydd prosiect gwerthu yn Gaerwen.

BETH WYT TI'N EI WNEUD?

Fy rôl efo Pelly ydi gwerthu'r platfform i glybiau pêl-droed. Dwi wedi cael gymaint o gyfleoedd gwych a gyda chefnogaeth Llwyddo'n Lleol, es i ar hyfforddiant sgowtio ac es i ar daith i fannau gwahanol yn Ewrop i ddeall sut mae clybiau a chwmnïau eraill yn gweithio. Ar ôl un trip i'r Iseldiroedd, dwi wedi gallu gwerthu ein cynnyrch i sawl clwb, felly dwi wedi datblygu sgiliau proffesiynol hefyd.

YDY HYN WEDI CAEL EFFAITH DDA?

Do, byswn i byth wedi gweld na chael y swydd yma oni bai am y profiad a'r gefnogaeth dwi wedi ei gael trwy Llwyddo'n Lleol. Mae'r profiad i ddysgu sgiliau newydd wedi bod o fudd mawr i fi, ac mae'n grêt bod fi wedi gallu gwneud hyn o adra a drwy'r Gymraeg!

Dwi'n parhau i weithio gyda Pelly, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ddatblygu'r busnes yn lleol a gwerthu mwy o'n cynnyrch. Yn y dyfodol, dwi'n gobeithio gallaf weithio mewn clwb pêl droed a dod o hyd i fwy o chwaraewyr.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government